O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1695 (Cy. 220)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *28 Mehefin 2012*

Yn dod i rym *9 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 9 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;